# Creu'r Sbardun

## Newyddlen Creu Conwy Haf 2023

**Croeso i'n rhifyn diweddaraf o newyddlen Creu Conwy sy'n rhoi diweddariad ar ein gwaith i ddarparu Strategaeth Diwylliant Conwy ers Nadolig 2022.**

Rydym wedi bod yn brysur yn datblygu prosiectau a sicrhau bron i £600,000 mewn cyllid i gefnogi cyflawni'r strategaeth.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth a chydweithrediad parhaus.




## Amdani! Conwy

Lansiodd Amdani! Conwy ar ddiwedd Mai - mae'r prosiect bellach yn fyw ac yn recriwtio gwirfoddolwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a chefnogi sefydliadau i gynnal cyfleoedd!

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd Amdani! yn recriwtio 300 o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol ar draws y sir. Anogwn i'n holl bartneriaid gymryd mantais o'r cyfle hwn i dyfu sail gwirfoddoli'r sir a helpu i hyrwyddo'r prosiect yn eang ymysg eich rhwydweithiau.

Os hoffech ddarganfod mwy am y prosiect, ewch i: Diwylliant Conwy | Amdani! Conwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

DIWYLLIANT
CONWY
CULTURE

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

## Creu Conwy Ifanc

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mae cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru a grant PCLC (Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru) wedi ein galluogi ni i adeiladu ar lwyddiant Pobl Ifanc Creadigol - rhaglen sy'n cynnig ystod o sesiynau grŵp a arweinir gan artistiaid ar gyfer plant a phobl ifanc 0 - 25 oed. Y llynedd, cynhaliwyd 330 o sesiynau a fynychwyd gan 4756 o gyfranogwyr. Eleni rydym yn datblygu rhaglen o dan faner Creu Conwy Ifanc gyda chanolbwynt ar estyn allan yn wledig a gweithio gyda chymunedau a phartneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyrraedd plant, pobl ifanc a theuluoedd na fyddai'n cael cyfle fel arall, i gael mynediad at y cyfleoedd creadigol hyn.I ddarganfod mwy ewch i: Diwylliant Conwy | Creu Conwy Ifanc

Yn dilyn ymlaen o ŵyl beilot Gigs y Gaeaf, bydd Creu Conwy Ifanc hefyd yn cefnogi dawn leol drwy raglen o hyfforddi a mentora pobl ifanc sydd â diddordeb yn y diwyddiant cerddoriaeth. Bydd y sgiliau newydd hyn yn cael eu harddangos drwy ddigwyddiad cerddoriaeth Gigs y Gaeaf yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Gwaith partneriaeth wrth galon Creu Conwy

Wrth i fodel llywodraethu ar gyfer y strategaeth aeddfedu, mae pob un o'r 'Timau Tref' traws-sector newydd yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst yn datblygu eu hunaniaeth eu hunain sy'n adlewyrchu'r angen yn lleol. Mae'r blaenoriaethau sy'n codi yn cynnwys grŵp ysgrifenwyr ifanc er mwyn rhoi mwy o le i leisiau pobl ifanc, adeiladu ar raglenni digwyddiadau, cydlynu cyfathrebu a chael mynediad at gyllid ychwanegol drwy geisiadau cyllid cyfunol er mwyn adeiladu capasiti a chefnogi gweledigaeth a rennir.

Rhannodd aelod o Bartneriaeth Strategol a Thîm Tref Conwy, y Parch. Eryl Parry o Ardal Weinidogaeth Bro-Celynnin ei phrofiad:

*"Mae bod yn rhan o Greu Conwy wedi ein helpu ni i adeiladu perthnasau colegol ac archwilio'n llawer mwy trylwyr, y posibilrwydd ar gyfer gweithgarwch diwylliannol, na fuasem wrth weithio ar ein pennau ein hunain. Mae rhai o'r prosiectau celf megis cynnal gosodiad ar gyfer Diwrnodau Agored Treftadaeth a Gŵyl Gigs y Gaeaf (mewn dwy eglwys ganoloesol) wedi atgyfnerthu'r partneriaethau creadigol newydd sydd wedi bod yn bosibl drwy'r fenter ehangach hon.*
*'Trwy Dîm Tref Conwy, wrth i'r cynlluniau a gweledigaeth a rennir esblygu, rydym eisoes yn gweld mwy o gyfleoedd i gydweithio - er enghraifft roeddem wedi gallu cysylltu gyda Chanolfan Gadwraeth Pensychnant a gynhaliodd un o'n digwyddiadau 'Addoli yn y Gwyllt' yn gynharach eleni'.*





# Diwylliant ar gyfer Adfer a Lles

Gyda'r tirlun economaidd heriol, mae lles wedi dod yn ganolog i genhadaeth Creu Conwy. Dros fisoedd y gaeaf gwelsom ein llyfrgelloedd a lleoliadau diwylliannol a chymunedol yn gweithredu fel canolfannau clyd - gan gynnig gofod diogel a chroesawgar i bobl gysylltu a threulio amser. Mae hyn wedi arwain y ffordd at gryfhau rhwydweithiau a chysylltiadau gyda'n cymuned, a phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, a rhoi cyfleoedd i bobl na fyddai fel arfer yn cael mynediad at fanteision cyfranogiad diwylliannol.

Mae cynlluniau cyffrous mewn lle i beilota Coleg Adfer newydd yn Llyfrgell Bae Colwyn. Arweinir y prosiect gan Dîm Lles Meddyliol Conwy, sydd mewn partneriaeth â Mind Conwy. Mae'r Coleg Adfer yn ddull wedi'i arwain gan ddysgu, sy'n cefnogi pobl i gynyddu eu dealltwriaeth o heriau iechyd meddwl maent yn eu profi a chymryd rheolaeth drwy hunan-reoli eu symptomau.  Rhan bwysig o'r broses hon yw i bobl ganfod diddordebau a gweithgareddau maent yn eu mwynhau, gan gyd-gynhyrchu eu llwybr personol i iechyd a lles gwell.

Mae'r Coleg Adfer yn alinio gyda'r cyfleoedd a grëwyd drwy brosiect newydd Cerddoriaeth Gymunedol Tape, sydd wedi lleoli eu swyddfa estyn allan yn Llyfrgell Bae Colwyn.Wedi'i ariannu drwy gynllun Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru, bydd Below the Waves yn defnyddio sgript ffilm wedi'i gyd-gynhyrchu i ysbrydoli cyfres o gyfleoedd gweithdai creadigol a datblygu modd newydd i fesur effaith gymdeithasol. Bydd yr allbynnau creadigol o'r gweithdai yn siapio a chyd-gynhyrchu ffilm a hefyd yn Creu arddangosfa ar daith a fydd yn rhannu dysgeidiaeth o amgylch y modelau effaith gymdeithasol a dathlu gwaith pobl.

*I gael rhagor o wybodaeth am fodel y Coleg Adfer, dilynnwch y ddolen hon

# Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol 100

Cafodd arweinydd Creu Conwy a Phennaeth Adran Diwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth, Helen Goddard ei henwebu fel un o Ysgogwyr Newid Cymru 100. Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe eisiau nodi diwedd ei chyfnod yn y swydd a 7 mlynedd gyntaf y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) trwy ddathlu'r hyn sydd wedi'i gyflawni a chymryd ciplun o'r miloedd o bobl ar lawr gwlad sy'n cefnogi'r Ddeddf ac yn ei gwneud yn fwy na darn o ddeddfwriaeth.

*"Mae Helen wedi ymrwymo i sicrhau fod lles diwylliannol yn cael ei adlewyrchu yn null a phenderfyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae wedi dangos pwysigrwydd dathlu treftadaeth a diwylliant wrth roi mesurau mewn lle i leihau anghydraddoldebau rhanbarthol, gan gynnwys unigedd ac amddifadedd'.*

# Edrych i'r Dyfodol

Gyda mewnbwn prosiect Amdani a thrwy sylw presennol ein timoedd diwylliant a llyfrgelloedd ar faterion gwrth-hiliaeth ac LHDTC+, mae nifer o brosiectau ar y gweill a fydd yn galluogi Creu Conwy i agor mynediad a chydweithio mewn perthynas â diwylliant a threftadaeth yn y misoedd i ddod.

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau gan Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol ac mae cymorth ariannol pellach yn cael ei geisio drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn galluogi ail-ddehongli'r gasgliadau llyfrgell, archifau a threftadaeth mewn cydweithrediad â phobl gyda phrofiad go iawn, ac i'n helpu ni weithio tuag at wneud ein lleoliadau diwylliannol yn fwy hygyrch ar gyfer pobl anabl o dan Fodel Cymdeithasol Anabledd.

# Drysau Agored

Mae dathliad blynyddol Cadw o dreftadaeth adeiledig Cymru yn digwydd drwy gydol mis Medi. Bydd safleoedd hanesyddol ar draws Cymru yn agor eu drysau am ddim a chynnig gweithgareddau i'r cyhoedd. Roedd rhaglen Drysau Agored 2022 Sir Conwy yn cynnig rhywbeth at ddant pawb; gwahoddiad i ymweld â Thŷ Mawr

Wybrnant; sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ycyfle i gyfrannu tuag at ddarn o gelf tecstilau yn Eglwys Sant Crwst, noson o gerddoriaeth ac adrodd straeon yn Eglwys y Santes Fair yng Nghaerhun - a llawer mwy.

Eleni, rydym yn gwahodd syniadau ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau - os hoffai unrhyw un drafod cyn cofrestru mae croeso i chi gysylltu, neu i gofrestru fel lleoliad yn uniongyrchol gyda Cadw, dilynwch y ddolen hon.

# Y Gymraeg

Argymhelliad a ddaeth o ddatblygu'r strategaeth oedd cynyddu gwelededd y Gymraeg yng Nghonwy - gan gyfoethogi'r profiad diwylliannol ar gyfer ymwelwyr a chryfhau'r synnwyr o le ar gyfer cymunedau.

Mae gwaith pellach gan Fenter Iaith wedi arwain at ddatblygu pecyn gwaith y Gymraeg ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch - sydd bellach yn fyw a gellir ei lawrlwytho yma.

Byddwn yn gweithio gyda Fforwm y Gymraeg i lywio, hybu ac ymgorffori elfennau Cymraeg y cynllun cyflawn



# Gronfa'r Pethau Pwysig

Rydym ni wedi cael £65,000 o Gronfa'r Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer creu arwyddion cyrchfan ar draws y sir. Arweinir y gwaith o'u datblygu gan artistiaid a chymunedau, a fydd yn defnyddio'r Gymraeg, dywediadau lleol ac ymdeimlad o le fel ysbrydoliaeth. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni rhwng rŵan a mis Mawrth 2025.

# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Conwy

Mae'r Gronfa Allweddol bellach ar agor ar gyfer ceisiadau, dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth.

DIWYLLIANT CONWY CULTURE

**I ddarganfod mwy ac i chwilio am gyfleoedd i gydweithio, peidiwch ag oedi, cysylltwch â thîm Creu Conwy.**

**01492 576 139** **creu@conwy.gov.uk** **www.diwylliantconwy.com**